Refferendwm
Refferendwm
Refferendwm
Refferendwm
Refferendwm

Y Comisiwn Etholiadol

Cynhaliwch refferendwm yn eich ysgol

Adnodd i'w ddefnyddio yng Nghymru

Trosolwg ar gyfer arweinwyr ysgol

electoralcommission.org.uk/dysgu

01.
Trosolwg ar gyfer arweinwyr ysgol

Nod y prosiect hwn yw meithrin gallu dysgwyr trwy ddatblygu dealltwriaeth bod ganddynt lais, dylanwad, a'r pŵer i achosi newid trwy gymryd rhan mewn gweithgaredd democrataidd.

Bydd dysgwyr yn cael eu gwahodd i wneud newid ar agwedd o'u bywyd ysgol trwy gymryd rhan mewn refferendwm. Rhaid i'r refferendwm ymdrin â mater sy'n berthnasol ac yn arwyddocaol i ddysgwyr, a rhaid i ddysgwyr gael eu grymuso i wneud dewis a fydd yn cael ei roi ar waith. Am y rheswm hwn, rhaid i arweinwyr ysgol benderfynu ar y mater i'w ystyried ac o leiaf ddau ganlyniad derbyniol. Lle bo modd, dylid meddwl am hyn gyda'r dysgwyr i wneud y broses yn gwbl ddilys, ond efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser.

Dylid cynnal y refferendwm mewn modd mor ddilys â phosibl fel y gall dysgwyr ddeall sut mae'r broses ddemocrataidd yn gweithio mewn gwirionedd, a chanlyniadau peidio ag ymgysylltu â'r broses honno.

Cyrraedd y pedwar diben:

Prif nod y dysgu yw anelu at ddatblygu **dinasyddion moesegol a gwybodus**, yn benodol rhai sy'n:

- deall a gweithredu eu cyfrifoldebau a hawliau dynol a democrataidd
- deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol

Fodd bynnag, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr hefyd 'gyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau' (**dysgwyr uchelgeisiol, galluog**), 'bod â'r hyder i gymryd rhan mewn perfformiad', sef cynnal trafodaeth yn yr achos hon (**unigolion iach, hyderus**), a 'chysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a sgiliau i greu syniadau (c**yfranwyr mentrus, creadigol**).

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

02.
Trosolwg ar gyfer arweinwyr ysgol

Meysydd Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (MDPh)

Mae Gwleidyddiaeth a Dinasyddiaeth yn rhan o MDPh y Dyniaethau. Felly, bydd y dysgu wedi'i wreiddio'n bennaf yn y Dyniaethau WM5, "Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol", gan fynd i'r afael yn benodol â meysydd 'dinasyddiaeth, ymddygiad a gweithredu', yn ogystal â 'Chwestiynau egwyddorol a moesol ac effaith penderfyniadau' (Meysydd Dysgu CCD).

Dilyniant

Yn seiliedig ar y meysydd ffocws o ran dilyniant, bydd dysgwyr yn gweithio o fewn neu tuag at ddau Ddisgrifiad penodol o Ddysgu yng Ngham Cynnydd 3:

- Gallaf ddeall bod canlyniadau i'm gweithredoedd a gweithredoedd pobl eraill, a bod y rhain yn effeithio ar fy ardal leol a Chymru, yn ogystal â'r byd ehangach.
- Gallaf gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, a gallaf rannu fy marn a thystiolaeth gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chynrychiolwyr etholedig yn fy nghymuned.

Dysgu Arfaethedig

Dealltwriaeth gysyniadol:

Mae'r dysgu'n canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth gysyniadol dysgwyr o dri phrif gysyniad:

- Pŵer, a'i berthynas â chydraddoldeb
- Gwneud penderfyniadau, a'i berthynas â chydraddoldeb
- Cyfrifoldeb democrataidd, a'i berthynas â hawliau democrataidd

Gwybodaeth allweddol:

- Y strwythur pŵer yn eu hysgol
- Y broses o wneud penderfyniadau yn yr ysgol
- Beth yw refferendwm a sut y cânt eu cynnal
- Pwysigrwydd cofrestru i bleidleisio

Datblygu sgiliau allweddol:

- Trafodaeth / dadl

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE